Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol — National Centre for Learning Welsh

Jack Sargeant AS
Cadeirydd Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru

Annwyl Mr Sargeant,

**Parthed: Deiseb P-06-1336 Gwersi Cymraeg am ddim i bawb sydd isio dysgu'r iaith yng Nghymru**


Diolch yn fawr am eich gohebiaeth ddiweddar am y ddeiseb uchod.

Mae dros 15,000 o ddysgwyr y flwyddyn yn mwynhau dilyn cyrsiau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae cyrsiau ar gael i bobl ddysgu Cymraeg yn y gymuned a'r gweithle. Mae rhaglenni penodol hefyd ar gael ar gyfer teuluoedd, pobl ifanc 16-25 oed a cheiswyr lloches a ffoaduriaid.

Mae cyrsiau ar gael mewn dosbarthiadau wyneb-yn-wyneb a rhai rhithiol. Mae adnoddau a chyrsiau hunan-astudio ar-lein hefyd ar gael, yn ogystal â llu o adnoddau dysgu digidol.

Mae'r Ganolfan wedi creu platfform digidol – math o 'siop-un-stop' - sy'n cynnwys gwybodaeth am yr holl wasanaethau i ddysgwyr: dysgcymraeg.cymru. Ar y platfform, mae dysgwyr yn gallu defnyddio'r 'chwilotwr cyrsiau' i ddod o hyd i gwrs, gan ddewis y dull dysgu, lleoliad, amser a diwrnod, lefel a dwyster sy'n eu siwtio nhw. Yn ddiweddar, mae'r Ganolfan wedi cyflwyno'r 'Dewin Dysgu', teclyn sy'n helpu dysgwr i ddod o hyd i gwrs addas, drwy ofyn cyfres o gwestiynau syml.

Mae dros 1,200 o gyrsiau Dysgu Cymraeg yn cael eu hysbysebu ar y platfform. Mae pob cwrs yn cael ei gyflwyno mewn ffordd glir, gyda gwybodaeth hanfodol, gan gynnwys y gost.




Mae gwybodaeth ar y safle am y dulliau dysgu gwahanol, a'r lefelau dysgu. Mae gwybodaeth am y cyfleoedd i gefnogi'r dysgu, hefyd, gan gynnwys: mynediad at adnoddau *Say Something in Welsh* a *Duolingo*; cynllun 'Siarad' y Ganolfan, sy'n paru dysgwyr a siaradwyr Cymraeg; a gweithgareddau Cefnogi Dysgwyr megis teithiau cerdded a phenwythnosau preswyl.

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol — National Centre for Learning Welsh

Yn ei arolwg o'r Ganolfan yn Ionawr 2021, nododd Estyn,

*'Mae swyddogion y Ganolfan wedi datblygu platfform digidol dros gyfnod i fod yn gyfrwng hwylus a hygyrch i ddysgwyr ei ddefnyddio, er enghraifft wrth chwilio am gwrs sy'n addas ar gyfer eu lefel ieithyddol, i ymrestru a thalu. Mae hyn yn cefnogi dysgwyr yn effeithiol wrth iddynt ddewis rhaglen ddysgu wrth ddechrau dysgu Cymraeg ac wrth ddewis llwybr dilyniant.'*

Gofynnwyd i'r Ganolfan lunio astudiaeth achos i Estyn am y platfform digidol cenedlaethol.

Ers 2019, yn sgil cyflwyno Polisi Ffioedd a Gostyngiadau Dysgu Cymraeg, mae cost cyrsiau ar draws Cymru wedi'u cysoni. Ffi pob cwrs yw £90, ac mae cyfres o ostyngiadau, gan gynnwys gostyngiad i bensiynwyr, myfyrwyr ac oedolion ar fudd-daliadau. Mae'r polisi yn cael ei adolygu'n flynyddol.

Mae dysgwyr cyfredol yn gallu manteisio ar gynnig Cyw Cynnar bob blwyddyn, wrth symud ymlaen i'w cyrsiau newydd ym mis Medi – bydd cyrsiau ar gael am £45 yn lle £90.

Mae cynnig arbennig ar gyrsiau dechreuwyr newydd mis Medi – mae'r cyrsiau hynny hefyd ar gael am £45 yn lle £90.

Erbyn hyn, mae'r cynulleidfaoedd canlynol yn gallu manteisio ar ostyngiad 100% ar y cyrsiau, ac felly'n eu derbyn am ddim:

- Ceiswyr Lloches
- Dysgwyr 18-25 oed
- Gweithlu Addysg
- Unrhyw oedolyn sy'n mynychu cwrs blasu
- Dysgwyr mewn gweithluoedd

Mae gwybodaeth am gronfa ariannol y Ganolfan ar gael ar dysgucymraeg.cymru. Cronfa yw hon sy'n rhoi cymorth ariannol i ddysgwyr tuag at gostau teithio, costau gofal plant, adnoddau ayb. Mae oddeutu 35 dysgwr wedi manteisio ar y gronfa yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Bob blwyddyn, mae'r Ganolfan yn cynnal holiadur 'Dweud eich Dweud' gyda'i dysgwyr, er mwyn sicrhau ein bod yn clywed llais ein dysgwyr wrth gynllunio ein gwasanaethau. Eleni, mae dros 4,500 wedi ymateb i'r holiadur. Yn yr holiadur, mae cwestiwn am hwylustod dod o hyd i wybodaeth a chofrestru ar gyrsiau Dysgu Cymraeg, ac mae'n braf nodi bod 91% wedi ateb hynny'n gadarnhaol.

Dywedodd 99% eu bod yn mwynhau dysgu Cymraeg gyda ni, ac roedd 93% yn disgrifio'r profiad dysgu yn dda neu'n dda iawn.

Dw i'n gobeithio bod yr wybodaeth uchod yn ateb eich cwestiynau - byddwn yn hapus i ddarparu rhagor o wybodaeth pe bai angen.

Yn gywir

Dona Lewis
**Prif Weithredwr**

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol/
National Centre for Learning Welsh
Y Llwyfan, Heol y Coleg / College Rd
Caerfyrddin / Carmarthen
SA31 3EQ

Ffôn / Telephone
0300 3234324

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

**Wedi'i chofrestru yn Lloegr a Chymru. Rhif y cwmni: 09914004**
**Registered in England and Wales. Company no: 09914004**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG Dysgu Learn